# Rhaglen Diwygio Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yng Nghymru
## Diweddariad y Rhaglen – Gorffennaf 2022

## Ailgychwyn y Rhaglen Diwygio Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol

Ailgychwynnwyd y Rhaglen Diwygio Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol ar 1 Ebrill 2022, mewn amodau heriol yn sgil effaith y pandemig ar bawb, yn enwedig timau deintyddol a chleifion. Diolch i dimau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol y Byrddau Iechyd am eu gwaith caled a'u digwyddiadau ymgysylltu lleol parhaus, cafwyd cryn gefnogaeth i amrywio'r contract deintyddol ledled Cymru ac mae practisau'r GIG nad ydynt wedi ymrwymo i'r diwygio wedi dychwelyd i'r contract unedau gweithgarwch deintyddol blaenorol (gweler y tabl isod). Yn ôl Byrddau Iechyd, mae nifer bach o ddeiliaid contract y GIG wedi penderfynu peidio â pharhau â'u contract deintyddol â'r GIG neu wedi penderfynu ymddeol. Deallwn fod Byrddau Iechyd wrthi'n cynllunio i ail-fuddsoddi'r arian sydd ar gael ym maes deintyddiaeth.

| Bwrdd Iechyd | Nifer y contractau gwasanaethau deintyddol cyffredinol/gwasanaethau deintyddol personol gorfodol sy'n ymuno â'r Rhaglen Diwygio Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol |
|---|---|
| BIPAB | 55 (69%) |
| BIPBC | 58 (75%) |
| BIPCTM | 47 (87%) |
| BIPCF | 46 (73%) |
| BIPHD | 48 (83%) |
| BIPAP | 17 (77%) |
| BIPBA | 53 (88%) |

## Digwyddiadau Ymgysylltu Rhithwir Gorffennaf 2022 – Ffocws ar wrando

Mae angen i aelodau o dimau deintyddol sy'n gweithio mewn rhannau gwahanol o Gymru gymryd rhan weithredol yn y rhaglen ddiwygio a rhoi adborth arni. Mynychodd Prif Swyddog Deintyddol Cymru, Andrew Dickenson, holl gyfarfodydd y Pwyllgor Deintyddol Lleol a Phwyllgor Ymarfer Deintyddol Cyffredinol Cymru Cymdeithas Ddeintyddol Prydain dros y misoedd diwethaf er mwyn gwrando ar eu safbwyntiau a'u deall.

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu rhithwir yng nghanol mis Gorffennaf lle rhannodd deiliaid contract deintyddol y GIG, deintyddion cyswllt a Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol eu profiad o weithio dan amrywiadau i'w contract. Rhannwyd adborth o'r digwyddiadau hyn â Swyddfa'r Prif Swyddog Deintyddol a bydd yn ddefnyddiol wrth adolygu'r contract ar ddiwedd y flwyddyn a chynllunio ar gyfer 2023-2024 a thu hwnt. Fel yr addawyd, rydych wedi lleisio eich barn, ac rydym wedi gwrando.

Cynhelir digwyddiadau ymgysylltu nesaf y rhaglen yn rhithwir ar 26, 27 a 28 Medi 2022, lle byddwn yn parhau i wrando, yn ogystal â rhannu gwybodaeth am ddata cyfredol a chynlluniau cychwynnol sy'n ystyried y flwyddyn ariannol nesaf a thu hwnt. Rhennir manylion am sut i gofrestru ar gyfer y digwyddiadau hyn yn fuan. Cynhelir y digwyddiadau dros dri diwrnod, gan ddilyn yr un agenda bob dydd, er mwyn roi cyfle i bawb gymryd rhan a rhoi adborth gwerthfawr. Gwnaed y penderfyniad hwn ar sail adborth gan gynrychiolwyr yn dilyn digwyddiad ymgysylltu mis Mawrth 2022.

## Bwrdd y Rhaglen Diwygio Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol – Y Grŵp Goruchwyliaeth Ddeintyddol Strategol

Mae angen i nifer o sefydliadau a thimau ymrwymo i'r rhaglen ddiwygio a chymryd rhan weithredol ynddi. Crëwyd strwythur i gefnogi'r nod hwn. Cynhaliwyd cyfarfod diweddaraf y Grŵp Goruchwyliaeth Ddeintyddol Strategol ar 28 Mehefin 2022. Ailystyriodd y cyfarfod gyflawniadau allweddol ffrydiau gwaith y rhaglen a'r cysylltiad rhyngddynt. Mae'r Grŵp Goruchwyliaeth Ddeintyddol Strategol yn adrodd i'r Grŵp Cysoni Gofal Sylfaenol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas Ddeintyddol Prydain a Swyddfa'r Prif Swyddog Deintyddol hefyd. Hefyd, ceir trafodaeth barhaus o fewn y Grŵp Goruchwyliaeth Ddeintyddol Strategol a'r holl ffrydiau gwaith ar sut i wella cyfathrebu â'r cyhoedd ac aelodau

o dimau deintyddol, a rhwng sefydliadau gwahanol sy'n rhan weithredol o'r rhaglen ddiwygio. Un o'r camau gweithredu a ddeilliodd o'r digwyddiadau ymgysylltu a ffrydiau gwaith gwahanol y rhaglen oedd ymgyrch gyfathrebu i hysbysu'r cyhoedd am ddiwygio gwasanaethau deintyddol. Mae gwaith yn parhau yn y maes hwn a cheir diweddariad ar gyfathrebu â'r cyhoedd yn yr adran berthnasol isod.

## Egwyddorion Gofal – Pydredd Dannedd a Chlefyd Periodontol

Datblygwyd yr Egwyddorion Gofal ar gyfer pydredd dannedd a chlefydau periodontol gan dimau deintyddol a roddodd o'u hamser gwerthfawr i ddylunio'r ddwy ddogfen bwysig hyn. Mae rhai timau deintyddol wedi bod yn rhan o'r gwaith o dreialu'r Egwyddorion Gofal a bwriedir cynnal gwerthusiad o ffrwd waith 2 er mwyn deall effaith bosibl yr Egwyddorion Gofal yn ymarferol. Bydd gwerthusiad a safbwyntiau'r timau yn helpu i lywio unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud mewn contractau newydd er mwyn hwyluso'r ffordd y gallant weithio yn ymarferol. Rhennir copi o'r ffurflen werthuso hon â'r proffesiwn deintyddol fel y gellir rhoi adborth. Mae'r cynllun gwerthuso hefyd yn cynnwys casglu barn y cyhoedd gyda chymorth y Cynghorau Iechyd Cymuned.

**Dweud Eich Dweud**

Fel y gwyddoch o bosibl, mae ymchwilwyr o Brifysgol Bangor yn cynnal gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen ddiwygio. Hoffai'r ymchwilwyr siarad â thimau practisau, yn gyfrinachol, am eich profiadau a'ch barn am ddyfodol gwasanaethau deintyddol y GIG yng Nghymru (naill ai dros y ffôn neu Teams). Ni fydd hyn yn cymryd mwy na 30 munud. Er mwyn diolch i chi am eich amser, hoffai'r tîm ymchwil gynnig taleb siopa gwerth £40 i chi.

Os hoffech gymryd rhan, rhowch eich manylion yn y ffurflen ganlynol: https://forms.gle/ivbYK7HK5YGdT7pP8

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag arweinydd y tîm ymchwil, Lorelei Jones lorelei.jones@bangor.ac.uk

## Pa gymorth sydd ar gael i hyfforddi a datblygu'r gweithlu deintyddol?

Mae AaGIC yn darparu addysg a hyfforddiant i ddatblygu, llunio a chefnogi'r gweithlu deintyddol yng Nghymru.

Yn 2022, gwyddom fod angen i ni barhau i ddatblygu wrth gynnal y rhaglenni a'r digwyddiadau er mwyn sicrhau bod ein cymorth yn parhau i fod yn nberthnasol i bob gweithiwyr deintyddol proffesiynol. Cadwch lygad am gylchlythyr Deintyddol cyntaf AaGIC yn nes ymlaen yn yr haf, a fydd yn rhoi rhagor o fanylion i chi am sut i roi adborth i helpu i lunio cyrsiau a digwyddiadau yn y dyfodol.

**Cynhelir Cynhadledd Timau Deintyddol Blynyddol AaGIC eleni ar 14 Hydref yng Ngwesty'r Marriot yng Nghaerdydd.** Rydym yn gobeithio eich gweld yn ein digwyddiad dysgu wyneb yn wyneb mawr cyntaf ers 2019. Mae lleoedd ar gael o hyd a gellir eu cadw drwy maxcourse yn y ffordd arferol Adran Graddedigion Deintyddol, AaGIC – Rhestr Cyrsiau (maxcourse.co.uk).

Bydd AaGIC yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i ddatblygu Cynllun Gweithlu Deintyddol Cymru. Bydd y gwaith hwn yn nodi'r gweithlu presennol, y bylchau a'r prinder, ac yn cynllunio ar gyfer y dyfodol. Cymeradwywyd swydd Rheolwr Rhaglenni ar gyfer Trawsnewid y Gweithlu Deintyddol, a chaiff ei recriwtio er mwyn arwain y gwaith hwn.

Rydym wrthi'n cyfweld ymgeiswyr ar gyfer ein rôl Arweinydd Hyfforddiant Nyrsys Deintyddol newydd. Bydd yr unigolyn a benodir yn datblygu, yn cyflwyno ac yn goruchwylio **rhaglen hyfforddi nyrsys deintyddol** o ansawdd uchel ar gyfer AaGIG (Diploma NEBDN) Bydd yn arweinydd proffesiynol ar gyfer nyrsio deintyddol yn AaGIG ac yn gweithio ym mhob rhan o'r sefydliad gyda rhanddeiliaid allanol i ddatblygu hyfforddiant hirdymor i nyrsys deintyddol ledled Cymru gyfan.

Byddwn yn parhau â'n gwaith arferol gyda'n **Clybiau Astudio Cymru Gyfan i Nyrsys Deintyddol, Therapyddion Deintyddol a Hylenwyr** a rhaglen lawn o gyrsiau a digwyddiadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus a gynhelir drwy gymysgedd o gyfleoedd dysgu; gan gyfuno dysgu ar-lein a dysgu cyfunol â dysgu wyneb yn wyneb lle mae profiad ymarferol yn hanfodol. Gan ddeall bod llesiant timau deintyddol yn parhau i fod yn flaenoriaeth, mae gennym ddigwyddiadau i gefnogi hyn a chynhelir y cwrs nesaf ar 1 Medi, **'Rheoli Straen wrth Gynnal Perfformiad'.**

Yn dilyn ein gwaith yn gynharach yn 2022 i brofi a datblygu'r **Egwyddorion Gofal ar gyfer Pydredd Dannedd a Chlefydau Periodontol**; byddwn yn cynnal **gweithdy yng Nghanolfan Addysg Feddygol a Deintyddol Llandochau ar 17 Hydref** er mwyn i dimau deintyddol feithrin eu dealltwriaeth o'r Egwyddorion Gofal a sut i'w hintegreiddio yn eu hymarfer eu hunain. Rydym yn annog grwpiau bach o'r un practis i fynychu gyda'i gilydd – cymysgedd o ddeintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn ddelfrydol. I drefnu lle, Adran Graddedigion Deintyddol, AaGIC – Rhestr Cyrsiau (maxcourse.co.uk)

Mae ein tîm o **Addysgwyr Deintyddol sydd wedi'u dyrannu i bob Bwrdd Iechyd ar gael i helpu timau i gynnal prosiectau gwella ansawdd ac adolygu cymheiriaid er mwyn dangos gwaith gwella ansawdd parhaus.** Gall

prosiectau gynnwys ystyried mentrau yn ymwneud â mabwysiadu strategaeth wyrddach a mwy cynaliadwy o ddarparu gofal i gleifion neu edrych ar brosesau er mwyn helpu i wella mynediad fel y gellir gweld a gofalu am fwy o gleifion.

Am ragor o wybodaeth ac i wneud cais am hyfforddiant neu ymweliad practis ar gyfer unrhyw un o'r agweddau ar wella ansawdd a nodir uchod, cysylltwch â HEIW.DentalQI@wales.nhs.uk

## Cyfathrebu â'r cyhoedd – Llywodraeth Cymru

Mae Swyddfa Prif Swyddog Deintyddol Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio ar gyfathrebu â'r cyhoedd.

**Cefndir**

Mae'r ffordd y mae pobl yn gweld eu deintydd yn newid. Dylai timau deintyddol gynnal asesiad cynhwysfawr i risgiau ac angen a dylai cleifion gael eu had-alw ar sail unigol. Nid oes angen i bob claf gael archwiliad bob chwe mis yn awtomatig mwyach. Bydd aelodau o dimau deintyddol yn parhau i gynghori cleifion ynglŷn â phryd y bydd angen iddynt gael eu gweld eto yn seiliedig ar eu hangen clinigol.

Mae angen gwneud defnydd gwell o'r adnoddau sydd ar gael er mwyn gweld pawb ar sail angen. Mae hyn yn golygu rhoi blaenoriaeth i weld cleifion y mae angen triniaeth arnynt gyntaf mewn practisau. Mae'r proffesiwn yn dal i deimlo effeithiau pandemig COVID-19 ac mae'r nifer cyfyngedig o ddeintyddion a phractisau yn golygu bod yn rhaid i adnoddau gael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon posibl, gan sicrhau bod cynnal ansawdd gofal cleifion wrth wraidd popeth. Mae angen i bractisau sy'n gweld ac yn trin cleifion anghenus iawn gael eu cefnogi gan eu Byrddau Iechyd yn eu hadolygiadau chwe misol a blynyddol, felly mae'n bwysig bod practisau'n rhannu unrhyw heriau a wynebir ganddynt yn gynnar â'r Bwrdd Iechyd ac yn dechrau sgwrs agored.

Dengys adborth gan y proffesiwn bod angen i Lywodraeth Cymru esbonio'r ffordd newydd hon o gael gwasanaethau deintyddol i gleifion a'r cyhoedd.

**Amcanion**

Esbonio i'r cyhoedd sut y byddant yn cael gwasanaethau deintyddol bellach a hyrwyddo pwysigrwydd gofalu am eu dannedd eu hunain.

**Negeseuon Allweddol i'r cyhoedd**

- Bydd eich deintydd y GIG yno i chi pan fydd ei angen arnoch.
- Bydd pobl bellach yn cael eu gweld ar sail angen.
- Ni fyddwch yn gweld eich deintydd bob chwe mis mwyach.
- Bydd eich deintydd yn dweud wrthych pa mor aml y bydd angen i chi gael eich gweld.
- Bydd y tîm deintyddol yn esbonio sut i gynnal iechyd deintyddol/y geg da drwy fesurau atal.

**Cyflawni**

- Dan arweiniad y Prif Swyddog Deintyddol.
- Wedi'i gefnogi gan ymgyrch 'Helpwch Ni i'ch Helpu Chi'.

Rhaglen Radio Wales Breakfast with Claire Summers – 27/07/2022 – BBC Sounds, neidiwch i 1:08 i glywed y cyfweliad.

## Diweddariad Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG

Mae ein tîm wedi bod yn gweithio'n galed y tu ôl i'r llenni ac mae'n bleser gennym gyhoeddi bod data ar lefel y perfformiwr bellach ar gael yn eDEN ar gyfer Cleifion Hanesyddol a Newydd. Anfonwyd e-bost at holl ddefnyddwyr eDEN i'w helpu i ddeall y data.

Mae'r gwaith canlynol yn yr arfaeth, a byddwn yn rhannu diweddariadau wrth i'r gwaith fynd rhagddo:

**Data Holiaduron Cleifion sy'n cael eu lanlwytho i eDEN** Hyd yma, rydym wedi arolygu mwy na 45,000 o gleifion ac wedi cael ymatebion ar gyfer mwy na 300 o gontractau. Cyhyd ag y bydd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG yn cael cyfeiriadau e-bost neu rifau ffôn symudol ar gyfer eich cleifion, byddwn yn arolygu cleifion ar hap ar gyfer eich contractau. Os bydd claf yn dewis peidio â rhoi rhif ffôn symudol neu gyfeiriad e-bost ar gyfer arolwg, byddwn yn anfon arolygon papur. Os na fydd claf yn dymuno i Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG gael ei gyfeiriad e-bost neu rif ffôn symudol, mae'n bwysig eich bod yn rhannu'r wybodaeth hon wrth gyflwyno eich hawliad.

**Data Set Ddata Glinigol (CDS) sy'n cyfateb i Fand y Driniaeth**. Rydym wedi cyflwyno canllawiau i gefnogi'r proffesiwn ar yr eitemau CDS y gellir eu hawlio o dan fand triniaeth. Ceir dolen i'r canllawiau yma: https://www.nhsbsa.nhs.uk/activity-payment-and-pension-services. Ar hyn o bryd bydd rhestrau perfformwyr yn cynhyrchu sylw os bydd gwall yn ymwneud ag eitem anghywir wedi'i hawlio yn erbyn band triniaeth. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ateb unrhyw gwestiynau neu bryderon sydd gan gyflenwyr Meddalwedd Rheoli Practisau Deintyddol. Rydym hefyd yn cefnogi Byrddau Iechyd a chontractau drwy gynnal digwyddiadau ymgysylltu i ateb unrhyw gwestiynau. **Os oes angen cymorth ychwanegol arnoch, cysylltwch â'n tîm.**

**Diweddariadau eDEN:**

- Rhaniad cleifion sy'n oedolion/plant – mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru ar lefel Bwrdd Iechyd Lleol/cenedlaethol, gan drafod yn barhaus ble y dylid integreiddio'r data hyn ymhellach yn eDEN.
- Mynediad Cyrff Deintyddol Corfforaethol i eDEN – dylai'r mynediad hwn fod ar gael yn yr ychydig fisoedd nesaf, yn lle'r ffeiliau misol a ddarperir i gyrff corfforaethol ar hyn o bryd. Bydd tudalen dangosfwrdd i ddangos crynodeb o'r data ar gyfer y corff corfforaethol, ynghyd â'r gallu i weld data ar lefel y contract.

Byddwn yn parhau i fabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar iechyd y boblogaeth ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy gofnodi data ar ethnigrwydd, a byddwn yn cefnogi'r gwaith o gasglu rhifau'r GIG yn y dyfodol.

Am ragor o wybodaeth a chyfle i gael y wybodaeth ddiweddaraf gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG am newidiadau i berfformwyr a darparwyr, ewch i'n Bwletinau Deintyddol: https://www.nhsbsa.nhs.uk/compass/bulletins/bulletins-providers-and-performers

**Cysylltwch â Dental Insight yn dentalinsight@nhsbsa.nhs.uk os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn ag eDEN. Cysylltwch hefyd os bydd gennych unrhyw adborth neu awgrymiadau – rydym yn eu croesawu wrth i ni geisio gwella'r gwasanaeth!**

Dros yr ychydig fisoedd nesaf, byddwn yn parhau i wneud newidiadau i naws a gwedd eDEN. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau yn ymwneud â chofrestru, ailosod cyfrinair a hyfforddiant, e-bostiwch eDENsupport@nhsbsa.nhs.uk

## Adnoddau i Bractisau

Beth yw diben ACORN?

https://primarycareone.nhs.wales/files/acorn-and-expectations/acorn-faqs-version-1-3-06-12-2021-pdf/

Mae AaGIG yn parhau i gynnig hyfforddiant er mwyn helpu timau deintyddol i ddeall rôl ACORN wrth fabwysiadu dull systematig o asesu risgiau ac anghenion cleifion. Mae lleoedd ar gael o hyd ar gyfer dau gwrs ym mis Medi. Cofrestrwch yma – Adran Graddedigion Deintyddol, AaGIC – Rhestr Cyrsiau (maxcourse.co.uk)

Caiff **PCOne** ei diweddaru'n rheolaidd. Gallwch weld gwybodaeth a dogfennau perthnasol yma – Diwygio Gwasanaethau Deintyddol – Gofal Sylfaenol Un (gig.cymru).

Gallwch rhannu **copïau digidol** o gynlluniau atal gyda'ch cleifion drwy e-bost. Gweler Gofal Sylfaenol Un – Cynllun Atal Deintyddol (e-fersiwn)

Gellir argraffu **copïau papur** yn lleol os oes angen. Gellir dod o hyd i'r rhain ar Gofal Sylfaenol Un: Gofal Sylfaenol Un – Cynllun Atal Deintyddol (Argraffadwy)

Gellir argraffu **posteri** a'u harddangos er mwyn atgyfnerthu'r neges am apwyntiadau deintyddol dilynol bob chwe mis. Gellir dod o hyd i'r rhain ar Gofal Sylfaenol Un – Poster Adalw Deintyddol

## Cymryd rhan

Rydym yn croesawu adborth a chwestiynau gan **bob aelod** o'r tîm deintyddol. Efallai nad oes gennym yr holl atebion ar hyn o bryd, ond gallwn nodi'r cwestiynau a'u defnyddio i lywio ein rhaglen a'n cyfathrebu (e.e. Cwestiynau Cyffredinol dogfennau a digwyddiadau ymgysylltu). Felly parhewch i ofyn cwestiynau a rhoi eich adborth i ni – cysylltwch â dentalpublichealth@wales.nhs.uk

**Caiff yr adroddiad nesaf ei lunio ym mis Hydref 2022**